


# Canllaw CYNNYRCH DIOGELU

Gall cymharu cynnyrch yswiriant diogelu eich drysu. Mae'r canllaw hwn yn rhoi trosolwg i chi o'r prif fath o bob cynnyrch: diogelu incwm, yswiriant bywyd a salwch difrifol. Gallwch ei ddefnyddio i roi cymorth i chi benderfynu pa un sydd fwyaf addas i chi os byddwch angen cynnyrch o'r fath.



## YSWIRIANT DIOGELU INCWM (IP)




## YSWIRIANT SALWCH DIFRIFOL (CI)



## YSWIRIANT BYWYD (LI)

### Beth ydi hyn?

Yn talu canran o'ch cyflog os na allwch chi weithio oherwydd salwch, anaf neu ddiswyddo anwirfoddol.



Mae hwn yn talu cyfandaliad allan os cewch ddiagnosis o salwch difrifol neu anabled. Mae'n diogelu yn erbyn unrhyw salwch difrifol a restrir yn eich polisi, (cyflyrau hirdymor/difrifol fel arfer).

Mae'n talu cyfandaliad di-dreth i'ch dibynnyddion os byddwch yn marw.

### Sut mae o'n gweithio?

Cewch daliadau misol di-dreth wedi i chi fethu gweithio yn sgil salwch neu anaf, am gyfnod penodol o amser. 3 neu 6 mis fel arfer.

Mae'r diogelwch yn para dros y cyfnod a ddewiswch, h.y. hyd nes y bydd eich morgais wedi ei glirio neu pan ddaw hi'n amser i'ch pensiwn ddechrau.

Daw'r taliadau i ben pan fyddwch yn medru dychwelyd i'r gwaith, yn ymdeol neu pan ddaw'r polisi i ben.

Chi sy'n dewis y swm a delir allan – po fwyaf yw'r swm, yr uchaf fydd cost y premiwm.

Mae'r diogelwch yn para dros y cyfnod a ddewiswch, h.y. hyd nes y bydd eich morgais wedi ei glirio neu pan fyddwch yn ymdeol.

Daw'r taliadau i ben pan fyddwch yn medru dychwelyd i'r gwaith, yn ymdeol neu pan ddaw'r polisi i ben.



Chi sy'n dewis y swm a delir allan – po fwyaf yw'r swm, yr uchaf fydd cost y premiwm. Mae yswiriant bywyd dros gyfnod yn para dros y cyfnod a ddewiswch chi ac yn talu swm sefydlog os byddwch chi'n marw yn ystod cyfnod y polisi. Mae yswiriant bywyd cyfan yn para hyd nes i chi farw, ond mae hyn yn debygol o gostio mwy.

### Oes modd hawlio mwy nag unwaith?

Cewch. Gallwch wneud cynifer o hawliadau ag sydd eu hangen arnoch yn ystod y polisi.



Na. Mae'r polisi'n talu allan am un hawliad yn unig, sef am gyfanswm yr yswiriant. Mae rhai polisiâu yn talu symiau llai allan hefyd, ar gyfer cyflyrau llai difrifol.

Na. Nid yw'r polisi'n talu allan oni bai eich bod yn marw, neu mewn rhai achosion, os cewch salwch sy'n golygu nad oes disgwyl i chi fyw am fwy na 12 mis.

### Pam fuaswn i ei angen?

Mae budd-daliadau'r wladwriaeth i'r rhai nad ydynt yn medru gweithio yn isel. Os byddech chi'n cael anhawster ymdopi gyda rhwng £70 a £100 yr wythnos, dylech ystyried yswiriant diogelu incwm.

I glirio'r morgais, talu biliau neu addasu'r tŷ, os cewch ddiagnosis o un o'r cyflyrau difrifol a restrir yn y polisi.

I ddarparu cymorth ariannol i'ch dibynnyddion os byddwch yn marw yn annisgwyl er mwyn iddynt fedru clirio'r morgeisi a'r benthyciadau neu dalu'r biliau.

### Peidiwch ag anghofio

Mae terfyn ar y swm o incwm allwch chi ei hawlio – sef hanner eich cyflog ar ôl talu treth fel arfer. Gwnewch yn siŵr nad ydych yn talu am fwy o yswiriant nag y gallwch chi ei hawlio. Efallai y bydd rhai eithriadau o safbwynt pa bryd y cewch chi gychwyn hawlio - fel arfer bydd gofyn i chi ddisgwyl 4 wythnos, ond bydd hyn wedi ei nodi yn eich polisi.

Mae'r holl yswirwyr yn defnyddio'r un diffiniadau ar gyfer y cyflyrau difrifol a ddiogelir gan amlaf. Nid yw cyflyrau sy'n bodoli eisoes yn debygol o gael eu hyswrio.



Os bydd eich ystâd yn atebol i dalu treth etifeddiaeth, gallwch ddefnyddio ymddiriedolaeth i arbed y taliad yswiriant bywyd rhag ychwanegu at eich bil treth etifeddiaeth. Gofynnwch i gynghorydd neu gwmni yswiriant am ragor o fanylion.

### Camau nesaf

Eisiau cael rhagor o wybodaeth am yswiriant diogelu incwm? Ewch i [moneyadvice.service.org.uk](http://moneyadvice.service.org.uk) a chwilio am yswiriant diogelu incwm.

Eisiau cael rhagor o wybodaeth am yswiriant salwch difrifol? Ewch i [moneyadvice.service.org.uk](http://moneyadvice.service.org.uk) a chwilio am yswiriant salwch difrifol.

Eisiau cael rhagor o wybodaeth am yswiriant bywyd? Ewch i [moneyadvice.service.org.uk](http://moneyadvice.service.org.uk) a chwilio am yswiriant bywyd.

### FFEITHIAU A FFIGURAU

Mae'n hanfodol eich bod yn ateb yr holl gwestiynau'n onest a rhoi'r holl ffeithiau i'r yswiriwr hyd eithaf eich gwybodaeth. Gallai hynny olygu'r gwahaniaeth rhwng cael taliad a chael dim byd o gwbl.

Ystyriwch ddefnyddio cynghorydd ariannol annibynnol i'ch helpu i wneud y penderfyniad iawn.

● Bob blwyddyn mae un miliwn o weithwyr yn y DU yn methu gweithio oherwydd anaf neu salwch.

● Yn 2013 talwyd 97% o'r holl hawliadau yswiriant unigol.



● Gall polisiâu yswiriant diogelwch gostio cyn lleied ag ychydig o bunnoedd y mis.

● Gall budd-daliadau'r wladwriaeth fod yn llai nag a ddisgwylwch. Os byddech chi'n cael anhawster ymdopi gyda rhwng £70 a £100 yr wythnos, dylech ystyried yswiriant diogelu incwm.